Fy enw i yw

# Mi Wela i!

Ac mi wela i efo fy llygad fach i...

Mae'n amser crwydro! Dewch â phensil a llyfr nodiadau a dod yn gyfarwydd â phopeth sydd o'ch cwmpas gan gysylltu â nhw mewn ffordd hwyliog!

## Cerflun


- Oes yna gerflun gerllaw? Beth mae'n ei ddweud wrthych am eich tref?
- Cofnodwch enw a dyddiad y cerflun. Beth mae'r cerflun wedi'i greu ohono (metel, carreg, clai)? Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

- Cylchwch y geiriau sy'n ei ddisgrifio:

dwys mawreddog gwirion HYLL pwerus hardd

## Ffenestri

Wyddoch chi fod sawl math o fframiau ffenestri wedi cael eu datblygu yn y DU dros wahanol oesoedd - Gothig, Fictoraidd, Rhufeinig, ayyb.? Mae rhai ohonynt yn edrych yn debyg i'r rhain



- Allwch chi weld unrhyw un o'r ffenestri gwahanol hyn ar eich taith?
- A yw'r adeiladau y maent ynddynt yn edrych yn hen neu'n fodern?
- Oes rhai ffenestri newydd wedi cael eu gwneud i edrych fel hen rai?
- Tynnwch lun neu ffotograff o'r rhai gwahanol a welwch!
- Pa rai ydych chi'n eu hoffi fwyaf? Pam?

## Clociau




Chwiliwch am fathau gwahanol o glociau yn eich tref.
A yw rhai ohonynt yn hen iawn neu'n ddiddorol?


- Pa amseroedd sydd arnynt?
- Ar ba fath o adeilad mae'r cloc? (Siop, eglwys, tŵr cloc...)
- Ceisiwch fraslunio'r rhai a welwch!




## Gwrthrychau Coll ac wedi eu Canfod

- Dewch o hyd i rywbeth allan o'i le - esgid unig, tegan wedi'i adael, neu arwydd angof.
- Beth am greu stori am sut y daeth yno!

## Beth yw'r Sŵn?



Caewch eich llygaid a gwrando ar yr hyn sydd o'ch cwmpas. Beth allwch chi ei glywed?


- Allwch chi glywed unrhyw synau mecanyddol? (car, awyrennau, bysus)
- Allwch chi glywed unrhyw synau naturiol (adar, gwynt), neu sŵn pobl yn gweithio?
- Allwch chi adnabod o leiaf dri sŵn gwahanol?
- Ceisiwch ddilyn sŵn diddorol a gweld lle mae'n eich arwain, ond cofiwch wylio lle'r ydych yn mynd!

## Taith Gerdded yr Enfys

Ceisiwch ddod o hyd i rywbeth ym mhob un o liwiau'r enfys ar eich taith. Tynnwch luniau neu rhestrwch nhw wrth i chi fynd yn eich blaen!

## Olion Anifeiliaid

**Mae anifeiliaid o'n cwmpas ym mhob man ac mae yna gliwiau  y gallwch ddod o hyd iddynt os edrychwch yn fanwl! Allwch chi weld unrhyw ôl traed anifeiliaid, plu, neu ddail wedi'u cnoi? Allwch chi ddyfalu pa anifail a'u gadawodd yno?**




## Helfa Gwasgaru Hadau

**Wyddoch chi fod planhigion a blodau yn defnyddio gwahanol ffyrdd i wasgaru eu hadau?! Allwch chi weld unrhyw un o'r rhain:**



petalau



aeron (peidiwch â'u bwyta!)



hadau



concyrs



mes



moch coed

## Olion Dynol

**Mae pobl a byd natur wedi dysgu cyd-fyw (byw hefo'i gilydd). Gallwn weld olion hyn mewn amryw o leoedd.**

**Heriwch eich hun i ddod o hyd i le sy'n naturiol a hefyd wedi'i greu gan ddyn.**

Cliwiau: Planhigion bychain yn blaguro rhwng cerrig palmant neu waliau, planhigion balconi, gwinwydd yn dringo i fyny hen adeiladau neu rhai newydd... ac unrhyw beth sydd wedi ei greu gan ddyn sydd ag elfennau o fyd natur hefyd!

## Ymwybyddiaeth o Sbwriel

**Dewch o hyd i sbwriel. Ydi o'n gwneud i'r lle edrych yn ddelach neu'n hyllach? Ydych chi'n meddwl y dylai pobl ollwng sbwriel?**



### Ffaith ddiddorol:

Wyddoch chi fod Archaeoleg yn ffynnu ar y sbwriel mae pobl wedi bod yn ei ollwng ers cannoedd o flynyddoedd? Beth am ystyried ymuno â digwyddiad casglu sbwriel sy'n cael ei drefnu i helpu i gadw'ch ardal yn lân.

## Hen Arwyddion

**Allwch chi ddod o hyd i arwydd sy'n nodi dyddiad yr adeilad neu'r tirnod? Beth yw'r dyddiad hynaf y gallwch ddod o hyd iddo? Pa mor hen yw'r lle hwnnw? Heriwch eich hun i ddod o hyd i rywbeth o'r 1800au neu'r 1900au.**

## Her Helfa Sborion

Gwnewch restr wirio o bethau i'w darganfod a gweld faint allwch chi eu canfod mewn wythnos. Beth am osod cyfyngiad amser er mwyn ychwanegu ymdeimlad o frys a cheisio curo'ch sgôr eich hun!



## Straeon Lleol

Gofynnwch i aelod hŷn o'r teulu neu gymydog sut mae gwahanol leoedd wedi newid dros amser.



## Creu Arddangosfa Fechan

Casglwch eich darluniau a'ch ffotograffau mewn arddangosfa gartref, yn yr ysgol neu mewn canolfan gymunedol. Rhannwch eich arddangosfa gyda ni a byddem wrth ein bodd yn ei harddangos ar ein gwefan!